st fagans national history museum
sain ffagan amgueddfa werin cymru

Rhaglen ysgolion cynradd 2011-2012

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

dod â hanes yn fyw

Cefndir

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yw un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop. Mae dros 40 o adeiladau hanesyddol o bob cwr o Gymru wedi'u hailgodi yma, er mwyn dangos arferion byw, gŵyl a gwaith yn y gorffennol.

Mae Adran Addysg Sain Ffagan wedi ennill Gwobr Sandford am ei rhaglen addysg arbennig. Mae tua 90,000 o ddysgwyr ffurfiol yn ymweld â ni bob blwyddyn.

Archebu

Rhaid archebu teithiau mewn grwpiau ymlaen llaw. Nid oes modd ymweld â rhai adeiladau heb archebu ymlaen llaw.

Cofiwch archebu gweithgareddau arbennig mewn da bryd, i osgoi cael eich siomi.

Siop a bwyty
I arbed amser yn ystod eich ymweliad, gallwch gysylltu â'r siop ymlaen llaw ar **(029) 2057 3412** i drefnu bagiau o bethau da am bris penodol ar gyfer eich grŵp. Gallwch chi hefyd gysylltu â'r bwyty ymlaen llaw ar **(029) 2057 3414** i drefnu pecynnau bwyd.

Mae'r holl weithgareddau'n addas i hyd at 30 o blant ar y tro.

Mae Adran Addysg yr Amgueddfa yn credu ei bod hi'n bwysig buddsoddi i gynnig gwasanaethau o safon i ysgolion. Gall gostio £150 a mwy i drefnu un sesiwn. Felly, os bydd yr amgylchiadau'n newid ac nad ydych chi'n gallu dod i'r Amgueddfa wedi'r cwbl, rhowch wybod i ni ar unwaith. Os byddwch chi'n canslo lai nag wythnos cyn y sesiwn, efallai y byddwch yn gorfod talu tâl gweinyddol o £50.

Ymweliadau rhagflas
Gallai ymweliad rhagflas eich helpu i ymgyfarwyddo â'r hyn sydd ar gael. Ffoniwch i drafod hyn gydag aelod o'r staff.

Adnoddau
Ewch i'n gwefan am fanylion yr adnoddau ategol, gan gynnwys ffeithlenni am y tai.

Am fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3278

Ble ydym ni?

Manylion cyswllt
Adran Addysg
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd
CF5 6XB
Ffôn: (029) 2057 3424
Ebost: dysgu.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

Cynigir mynediad AM DDIM diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru

sylfaen CA2

Chwarae gyda rhifau
Cyfle i ddatblygu sgiliau rhifedd sylfaenol gyda bagiau chwarae â rhifau yn yr Amgueddfa, neu lawrlwythwch yr adnoddau o'n gwefan. Gweithgareddau'n cynnwys gemau odli a rhifo.
45 munud, dan arweiniad athro

Siop Gwalia
Sut brofiad oedd siopa dros 80 mlynedd yn ôl?
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Teganau
Profwch eich sgiliau gyda theganau traddodiadol, a meddwl sut maen nhw'n gweithio.
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Diwrnod Golchi gyda Beti Bwt
Helpwch Beti Bwt i olchi'i dillad yn y dull traddodiadol, cyn dyddiau'r peiriant golchi.
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Celf y coed
Defnyddiwch eich synhwyrau yn y goedwig ac ewch ati i wneud gwaith celf gyda'r deunyddiau naturiol byddwch chi'n eu darganfod yno. Defnyddiwch eich sgiliau meddwl a chreadigol i ddysgu sut mae anifeiliaid a phlanhigion yn addasu i'r tymhorau.
1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Wyddoch chi...
y gall disgyblion CA2 gymryd rhan mewn astudiaeth newid yn yr hinsawdd ymarferol a chael bylbiau am ddim! Ymgeisiwch arlein erbyn 24 Gorffennaf 2011 ar **www.amgueddfacymru.ac.uk/scan/bylbiau**

CELF A DYLUNIO

Lliwiau a phatrymau yn yr Oes Haearn
Dewch i ddarganfod lliwiau a symbolau Oes yr Haearn, a rhowch gynnig arni eich hun wedyn
1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Cwrdd â'r coed
Chewch chi unman gwell am ysbrydoliaeth ar gyfer gweithgareddau creadigol na'r amgylchedd naturiol. Ewch ati i wneud gwaith celf gyda'r deunyddiau naturiol y dewch chi o hyd iddyn nhw yn y goedwig.
1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Awch am adeiladau
Meithrin sgiliau arsylwi trwy wneud brasluniau o adeiladau. Dysgwch sut mae artistiaid o Gymru wedi portreadu pensaernïaeth mewn celf a phaentiadau, a chydweithiwch â staff yr amgueddfa i wneud eich fersiynau 3D neu 2D eich hun o un o adeiladau'r Amgueddfa.
1 awr 30 munud, un gweithgaredd dan arweiniad staff yr Amgueddfa a'r llall dan arweiniad athro

Y CWRICWLWM CYMREIG

Perthyn
Ewch am dro o amgylch Oriel 1 i ddysgu am amrywiaeth a hanes Cymru. Mae'r themâu'n cynnwys Lleisiau, Credoau, Teulu a Chenedl.
30 munud, dan arweiniad athro

Traddodiadau'r Nadolig a'r Calan yng Nghymru
Dysgwch sut oedd yr hen Gymry'n arfer dathlu'r gwyliau.
1 awr 30 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa.

Arddangosiadau crefft
Dewch i weld crefftwyr yr Amgueddfa wrth eu gwaith – gellir eu harchebu am sgyrsiau hefyd.

CA2

HANES

CELTIAID OES YR HAEARN

Cyflwyniad cyffredinol

Dewch i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o fywyd pobl yn ystod Oes yr Haearn.
30 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Bywyd bob dydd

Dewch i gwrdd â Gwalchgwyn a dysgu mwy am ffermio a hela, bywyd y cartref a'r gymdeithas yn ystod Oes yr Haearn. Dysgwch sut i ddefnyddio gwerthyd, creu breichled wlân a helpu i godi wal plethwaith a chlai.
Rhaid i athrawon fynychu diwrnod hyfforddi yn gyntaf.
1 awr 15 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Y TUDURIAID

Gwisgoedd y Tuduriaid

Sesiwn cymharu a chyferbynnu dillad a wisgwyd gan fonheddwyr a ffermwyr cefnog. Beth maen nhw'n ei ddweud am eu ffordd o fyw? Astudiwch bortread o blant Oes y Tuduriaid a defnyddiwch sgiliau ymchwil i'w dadansoddi. Yna, gallai'r athrawon fynd â'r disgyblion am dro i un o'r adeiladau Tuduraidd sy'n cynnwys Hendre'r-Ywydd Uchaf (1508) a'r Garreg Fawr (1544), neu Eglwys Sant Teilo (1530).
Rhaid i'r pedwar disgybl sy'n cymryd rhan ym mhob tasg wisgo siorts a chrys T o dan eu dillad.
1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Ar drywydd y Tuduriaid

Cymharwch ddau dŷ Tuduraidd – Hendre'r-Ywydd Uchaf (1508) a'r Garreg Fawr (1544) – cyn mynd am dro o amgylch Eglwys Sant Teilo (1530). Gafaelwch yng ngwrthrychau replica Oes y Tuduriaid a datblygu sgiliau ymchwil hanesyddol.
Rhaid i athrawon fynychu diwrnod hyfforddi cyn trin a thrafod gwrthrychau replica.
1 awr 45 munud, dan arweiniad athro

BYWYD BOB DYDD YN Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG A'R UGEINFED GANRIF

Siop Gwalia

Sut brofiad oedd siopa mewn cymuned ddiwydiannol yn y 1920au?
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Teganau

Profwch eich sgiliau gyda theganau traddodiadol.
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Diwrnod golch mam-gu

Blas ar olchi dillad cyn dyddiau'r peiriant golchi.
45 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Ysgol Maestir

Cyfle i athrawon a disgyblion ail-fyw gwers ysgol yn y 1890au.
Rhaid i athrawon fynychu diwrnod hyfforddi yn gyntaf.
1 awr 30 munud, dan arweiniad athro

Y Ffrynt Cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Sut oedd bywyd faciwî yng Nghymru yn ystod y rhyfel?
1 awr 15 munud, dau weithgaredd gyda staff yr Amgueddfa, ac un dan arweiniad athro

Rhyd-y-car

Ewch am dro i'r rhesdai o ardal Merthyr Tudful a sylwch ar y gwahaniaethau rhwng ffordd o fyw 1805, 1855, 1895, neu 1925, 1955 a 1985.
30 munud, dan arweiniad athro

CA2

GWYDDONIAETH

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwyniad i'r Tŷ Gwyrdd

Cymharwch eich tŷ chi â'r Tŷ Gwyrdd ein hadeilad eco-gyfeillgar. Dysgwch am y nodweddion arbed ynni a'r deunyddiau lleol sy'n helpu i gadw ôl-troed carbon y tŷ'n isel. Dewch i'r Tŷ Gwyrdd i hael ysbrydoliaeth am fyw'n gynaliadwy.

30 munud, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Byw'n Wyrdd yn Tŷ Gwyrdd

Dewch i ddarganfod pam mae arbed ynni mor bwysig, a darganfyddwch nodweddion eco-gyfeillgar Tŷ Gwyrdd. Cwblhewch y cwis i weld sut mae'r tŷ'n defnyddio dŵr, gwres, golau a thrydan a chymharu hyn â'ch defnydd chi o ynni yn eich cartref. Efallai yr hoffech fynd am dro ar hyd Llwybr Cynaliadwyedd Sain Ffagan ar ôl y gweithgaredd hwn.

1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Llwybr Cynaliadwyedd Sain Ffagan

Archwiliwch y tai traddodiadol yn Sain Ffagan i weld sut oedd pobl yn defnyddio dŵr, gwres, golau a thrydan yn y gorffennol.

1 awr, dan arweiniad athro

ORGANEBAU CYD-DDIBYNNOL

Archwilio Natur yn Sain Ffagan

Dewch am dro gyda ni i ddarganfod natur yn Sain Ffagan. Dysgwch pa anifeiliaid sy'n byw o dan y dail ac yn y coed. Cymrwch ran mewn helfa bwystfilod bach ac ymwelwch â'r guddfan adar, defnyddiwch chwyddwydr a sbienddrych i weld ein bywyd gwyllt gwych. Rhwng mis Mai a mis Medi, mae'n bosibl y byddwch chi'n ddigon lwcus i weld ein hystlumod ar ein camera byw arbennig hefyd!

1 awr, dan arweiniad staff yr Amgueddfa

Llwybr Bywyd Gwyllt Sain Ffagan

Defnyddiwch fap a chwmpawd i ddilyn cliwiau ac adnabod bywyd gwyllt Cymreig. Dysgu yn yr awyr agored gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhifedd.

1 awr, dan arweiniad athro

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I ATHRAWON

ATHRAWON Y CYFNOD SYLFAEN

Dewch i gael blas ar ein darpariaeth gan gynnwys chwarae gyda rhifau, teganau traddodiadol a llu o weithgareddau awyr agored yn y coetir gyda staff yr Amgueddfa.

ATHRAWON CA2

Celtiaid Oes yr Haearn

Rhaid i bob athro sy'n dod â dosbarth i weithdai'r Pentref Celtaidd, fynychu'r cwrs hwn. Bydd ymweliad â chasgliadau Oes yr Haearn yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn rhan o'r cwrs.

Bywyd bob dydd yn Oes y Tuduriaid

Blas ar y gweithgareddau sydd ar gael. Dysgwch fwy am Eglwys Sant Teilo a'r ffermdai yn Oes y Tuduriaid. Rhaid i bob athro sy'n dymuno cymryd rhan yng ngweithgareddau 'Ar drywydd y Tuduriaid' fynychu'r cwrs hwn.

Bywyd bob dydd mewn ysgol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg – Ysgol Maestir

Blas ar fywyd plant ysgol yn y 1890au. Rhaid i bob athro sy'n dymuno cymryd rhan yn y sesiynau ail-greu gwersi'r 1890au fynychu'r cwrs hwn.

Celf a dylunio

Cyflwyniad i'r gweithgareddau celf a dylunio sydd ar gael yn Oriel 1 a thu allan ar y safle.

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy

Cyflwyniad i weithgareddau byd natur, deall yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy.

Mae'r holl gyrsiau am ddim ac yn para drwy'r dydd.